

Enw:

**Dyfarniad Hyfforddwr Padfwrdd
Sefyll Lefel 1 BCAB**

Pecyn Datblygu Dysgwr

Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB Pecyn Datblygu Dysgwr

Rhagarweiniad

Croeso i'ch Pecyn Datblygu Dysgwr Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB. Dyluniwyd y pecyn hwn i'ch helpu i fyfrio ar eich sgiliau presennol a'ch helpu i nodi'r meysydd y byddech yn elwa ar ddatblygu ymhellach.

Mae hefyd yn rhoi cyngor i chi ar gyfrifoldebau eich trefnydd, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer eich datblygiad parhaus.

Sylwer bod y 'Canllawiau Asesu Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB' yn rhoi gwybodaeth fanwl bellach am safonau gofynnol yr asesiad.

Safonau Proffesiynol

Mae rhai ymddygiadau a rhinweddau craidd sy'n hanfodol i rôl y Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB. Mae'r cwrs Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB yn rhoi'r cyfle i chi ystyried eich sgiliau presennol yn y maes hwn a chael ychydig o adborth gan eraill. Dylai hyn helpu i'ch paratoi ar gyfer gweithio fel Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, eich helpu i nodi rhai o'r pethau y bydd trefnwyr yn chwilio amdanynt, a'ch helpu i ddatblygu eich hun fel hyfforddwr.

Safonau Proffesiynol	1	2	3
Gwisgais yn addas ar gyfer Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB			
Roedd fy ymddygiad yn briodol fel Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB			
Gweithiais yn rhan o dîm yn ystod y cwrs			
Dangosais barch at yr amgylchedd a phobl eraill			
Ceisiais gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol (roedd eraill yn fy neall)			
Cymerais ran ragweithiol yn y cwrs ac roeddwn yn awyddus i ddysgu			
Dewiswch dri gair sy'n eich disgrifio'n dda (neu dewiswch eich geiriau eich hun): Cyfeillgar pwyllgor gofalgar ysbrydoledig aelod o dîm llawen cwrtais yn barod i helpu cefnogol sylwgar brwdfrydig			
Yn eich barn chi, pa rinweddau sydd gennych a fydd yn eich helpu i ddod yn Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB ardderchog?			
Trafodwch eich atebion â Hyfforddwr arall. Beth ddysgoch am eich hun o'r drafodaeth?			

Meysydd i'w datblygu a nodiadau o drafodaethau:

1 = Yn bendant 3 = Ddim cymaint

Sgiliau SUP Personol

Yn ystod y cwrs, bydd angen i chi ddangos bod eich sgiliau SUP personol yn ddigon da i'ch galluogi i ymgymryd â chyfrifoldebau hyfforddi. Nid yn unig y bydd angen i chi allu llywio eich bwrdd, ond fel esiampl dda, bydd eich sgiliau personol yn ysbrydoli a magu hyder eraill, a bydd technegau cadarn yn eich helpu i osgoi anafiadau yn ystod eich gyrfa fel hyfforddwr.

Sgiliau Padlo Personol	1	2	3
Dewis a pharatoi SUP (e.e. tennyn, esgyll, wedi'i lenwi'n briodol, ac ati.)			
Codi a chario			
Lansio a glanio			
Rheoli mewn llinell syth			
Llywio'n gywir			
Osgo rhagweithiol gan ddefnyddio cyhyrau mwyaf y corff (fel sy'n briodol)			
Tensiwn yn y prif gyhyrau/prif gyhyrau'n barod, symudiadau diwastraff effeithlon			
Yn gytbwys, ystwyth ac yn medru rheoli symudiad y corff, y badl a'r bwrdd			
Cysylltiadau cadarn (pwyntiau cyswllt rhwng y corff a'r bwrdd a sefydlogrwydd craidd)			
Trosi pŵer yn effeithiol i symud y bwrdd			
Strociau cydlynol ac effeithlon			
Defnyddio pŵer i symud i fyny at y badl, y tu hwnt iddi neu o'i hamgylch			
Cydbwysedd a sefydlogrwydd pan ddefnyddir pŵer ar strociau			

Defnyddio trim, gogwydd a/neu ymyl (defnyddio rheiliau) i helpu o ran effeithlonrwydd.			
--	--	--	--

Meysydd i'w datblygu a nodiadau o drafodaethau:

- 1 = Rwy'n hyderus y gallaf wneud hyn yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd
- 2 = Gallaf wneud hyn yn "ddigon da" i'r graddau sydd eu hangen arnaf
- 3 = Mae angen i mi ymarfer hyn i wella

Sgiliau Achub

Mae'r gallu i achub cyfranogwyr os ydynt wedi cwmpo yn y dŵr neu wedi'u hanalluogi yn sgil craidd i Hyfforddwyr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB. Caiff technegau cadarn eu tanategu gan yr angen am y gallu i wneud penderfyniadau da, ynghyd ag ystod o brofiad i'ch helpu i ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd.

Drwy gydol y cwrs bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu ymdrin ag ystod o sefyllfaoedd achub fel y rhestrir isod.

Sgiliau Achub	1	2	3
1. Achub mewn dŵr dwfn			
2. Achub yn seiliedig ar fwrdd ar ei fol codi a chario nofiwr			
3. Tynnu/pwtio/gwthio			
4. Padlwr anymwybodol yn y dŵr			
5. Mynd yn ôl ar y bwrdd			
Meysydd i'w datblygu a nodiadau o drafodaethau:			

1 = Rwy'n hyderus y gallaf wneud hyn yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd

2 = Gallaf wneud hyn yn "ddigon da" i'r graddau sydd eu hangen arnaf

3 = Mae angen i mi ymarfer hyn i wella

Tystiolaeth o Gyflawni

Enw'r Dysgwr:			
Rhif Aelodaeth:			
Manylion Cwrs	Cwrs:	Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB	
	Dyddiadau:		
	Lleoliad:		
	Tiwtor/tiwtoriaid:		
Cofrestru		<input type="checkbox"/>	Nodiadau:
Tasgau Asesu Terfynol			
Aseswr i gadarnhau ar ôl llwyddo i gwblhau'r cwrs (Defnyddiwch ✓/).			
1. Safonau Proffesiynol	<input type="checkbox"/>	Nodiadau:	
2. Sgiliau Personol	<input type="checkbox"/>		
3. Sgiliau Achub	<input type="checkbox"/>		

Cadarnhad Terfynol yr Aseswr			
Cadarnhaf fod y dysgwr a enwir uchod wedi cwblhau'r holl elfennau angenrheidiol yn ystod yr asesiad ac rwyf yn argymhell bod Corff Dyfarnu Canwio Prydain yn cyflwyno Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB) i'r ymgeisydd.. Argymhelliad yw hwn ar gyfer ardystiad yn unig; ar ôl ei gadarnhau, bydd Corff Dyfarnu Canwio Prydain yn awdurdodi'r ardystiad.			
Llofnod:		Dyddiad:	

Materion trefnwr a datblygiad parhaus

Fel Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, mae'n bwysig deall cyfrifoldebau eich trefnydd, yn ogystal ag ystyried eich datblygiad proffesiynol parhaus.

Materion trefnu a'r hyn i'w ddisgwyl

Mae'ch cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Padlfyrddio Sefyll Lefel 1 BCAB ar gyfer cynnal sesiynau rhagflas/cychwynnol o fewn systemau rheoli diogel clybiau, canolfannau neu sefydliadau eraill mewn:

- Amgylcheddau 'Dŵr Cysgodol lawn';
- SUP yr ystyrir i fod yn addas i bobl yn eu sesiwn gyntaf oll.

Fel hyfforddwr, mae'n hanfodol pan fyddwch yn dechrau cyflwyni sesiynau maent o fewn systemau cynorthwyol trefnwr. Mae'r trefnwr yn gyfrifol am:

- Darparu ymsefydlu a hyfforddiant priodol;
- Ymgylfarwyddo â'r safle a'r fframweithiau diogelwch a ddarparwyd;
- Ystyried yr angen am hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn dibynnu ar eich rôl/defnydd.

Ar ôl meddu ar eich cymhwyster, a'ch bod wedi ennill tystysgrif cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu gyda phrofiad hyfforddi ychwanegol, efallai y bydd trefnydd yn rhagweld ac yn ystyried eich defnyddio i gynnal sesiynau rhagflas/cychwynnol ar eich pen eich hun.

Datblygiad Parhaus

Dod yn Ddarparwr Dyfarniad Perfformiad Personol

Fel Hyfforddwr Padlwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB, gallwch ddod yn ddarparwr [Dyfarniadau Perfformiad Personol](#) gan alluogi padlwyr i dderbyn cydnabyddiaeth a dathlu eu cyflawniadau. I ddod yn ddarparwr bydd angen eich bod wedi cwblhau a bod yn meddu ar y canlynol:

- [Dyfarniad cymorth cyntaf 1 diwrnod cydnabyddedig Corff Dyfarnu Canwio Prydain](#) dilys (o fewn 3 blynedd);
- [Hyfforddiant Diogelu](#) dilys (o fewn 3 blynedd);
- Wedi cwblhau'r [e-ddysgu Darparwr Dyfarniadau Perfformiad Personol](#);
- Aelodaeth Lawn y Gymdeithas Genedlaethol.

Dod yn Ddarparwr Paddle Safer

Fel Hyfforddwr SUP Corff Dyfarnu Canwio Prydain gallwch ddod yn ddarparwr y [cwsr Paddle Safer](#). Mae'r cwsr yn ymdrin ag arferion padlo diogel ac wedi'i anelu at badlwyr newydd/nofis mewn unrhyw gwch. I ddod yn ddarparwr bydd angen eich bod wedi cwblhau a bod yn meddu ar y canlynol:

- [Dyfarniad cymorth cyntaf 1 diwrnod cydnabyddedig Corff Dyfarnu Canwio Prydain](#) dilys (o fewn 3 blynedd);
- [Hyfforddiant Diogelu](#) dilys (o fewn 3 blynedd);
- Wedi cwblhau'r [e-ddysgu Darparwr Paddle Safer](#);
- Aelodaeth Lawn y Gymdeithas Genedlaethol.

Mynd â'ch Cymwysterau, Dyfarniadau a Phrofiad Ymhellach

Ar ôl i chi ennill ychydig o brofiad, neu os ydych yn dymuno cymryd rolau gwahanol, efallai y byddwch yn dewis gweithio tuag at gymwysterau a dyfarniadau neu fodiwlau hyfforddi eraill Corff Dyfarnu Canwio Prydain.

Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch y cyrsiau hyn ar [wefan Corff Dyfarnu Canwio Prydain](#).

Cymhwyster Arwain Chwaraeon Padlo:

Mae hyfforddwr sy'n meddu ar gymhwyster Arweinydd Chwaraeon Padlo a Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB mewn safle da i gyflawni ei ddyletswyddau hyfforddi yn fwy annibynnol. Mae'r cymhwyster Arwain Chwaraeon Padlo yn cynnwys lefel uwch o asesu diogelwch, sgiliau achub a sgiliau personol mewn cymysgedd o gychod, a chaiff ei ategu gan brofiad ehangach a dyfnach. Gellir defnyddio'r cymhwyster Arwain Chwaraeon Padlo i ehangu gorchwyl yr hyfforddwr i amgylcheddau 'Dŵr Cysgodol'.

Cymhwyster Arweinydd SUP Dŵr Agored

Mae hyfforddwr sy'n meddu ar gymhwyster Arweinydd SUP Dŵr Agored a Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB mewn safle da i gyflawni ei ddyletswyddau hyfforddi yn fwy annibynnol. Mae'r cymhwyster Arweinydd SUP Dŵr Agored yn cynnwys lefelau uchel o asesu diogelwch, sgiliau achub a sgiliau personol, a chaiff ei ategu gan brofiad ehangach a dyfnach. Gellir defnyddio'r cymhwyster Arweinydd SUP Dŵr Agored i ymestyn gorchwyl yr hyfforddwr i Ddŵr Mewndirol Cymedrol ac ar afonydd hyd at, ond heb gynnwys, gradd 2.

Dyfarniadau Hyfforddi: Mae'n bosibl y byddwch am ddilyn Dyfarniad Hyfforddi os oes gennych ddiddordeb mewn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau chwaraeon padlo. Mae'r rhain yn gymwysterau a dyfarniadau ar gyfer y rheini sy'n dymuno hyfforddi dechreuwyr neu gynnal sesiynau cychwynnol a cheir ystod o ddyfarniadau sy'n benodol i ddisgyblaeth sy'n ymdrin â'r ystod eang o'n disgyblaethau arbenigol. Mae 4 dewis SUP ar gael; Hyfforddwr SUP Dŵr Cysgodol, Hyfforddwr SUP Dŵr Agored, Hyfforddwr SUP Dŵr Gwyn a Hyfforddwr SUP Rasio.

Argymhellir cadw cofnod o'ch hyfforddiant a datblygiad ar ôl ennill eich cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Padlfwrdd Sefyll Lefel 1 BCAB. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â chadw eich tystysgrifau, mae cofnodi'r sesiynau yr ydych wedi chwarae rhan weithredol yn eu cyflwyno yn ddefnyddiol i ddangos eich profiad.

Nodiadau

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi unrhyw nodiadau penodol o'ch cwrs, neu i nodi unrhyw ystyriaethau pellach sydd gennych ynglŷn â'ch camau nesaf.